Gwasanaethu'r gymuned | Pobl | Ymdrechu dros ragoriaeth | Amrywiaeth a chynhwysiant

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# DIRPRWY GYNGHORYDD IECHYD, FFITRWYDD A LLES

**Adran Hyfforddiant a Datblygu**
**Parhaol, 37 awr yr wythnos NWFRS Gradd 06 £31,537 i £34,434 y flwyddyn**
**(Mae'r tâl yn cynnwys lwfans cyflog o 8.5% am ddarpariaeth y tu allan i oriau)**

Rydym yn chwilio am Ddirprwy Gynghorydd Iechyd, Ffitrwydd a Lles i ymuno â'n tîm. Mae cynnal lles a ffitrwydd yn rhan allweddol o rôl diffoddwr tân ac mae'r gefnogaeth hon yn ymestyn i'n holl weithwyr. Fel hyfforddwr ffitrwydd cymwysedig byddwch yn cynorthwyo i ddarparu monitro ffitrwydd corfforol ac addysg gysylltiedig ein gweithwyr, gan gynnwys diffoddwyr tân gweithredol. Byddwch hefyd yn chwarae rôl allweddol wrth hyrwyddo, datblygu a chynorthwyo gyda chydlynu pob agwedd ar weithgareddau iechyd a lles yn ein Gwasanaeth.

Gyda sgiliau trefnu a chynllunio cryf, bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gynllunio ei amserlen waith ei hun a chwblhau tasgau yn annibynnol ar draws ardal Gogledd Cymru. Bydd angen iddynt hefyd fod yn hunan-gymhellol ac yn gyfathrebwr effeithiol, gan ddelio â chydweithwyr mewnol a sefydliadau allanol, yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Bydd angen i ymgeiswyr ddangos (gyda thystiolaeth) yn erbyn y meini prawf hanfodol fel yr amlinellir yn y disgrifiad swydd a manyleb person, gan gynnwys:

- Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn Astudiaethau Chwaraeon neu bwnc cysylltiedig
- Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth gyfredol o faterion sy'n ymwneud â ffitrwydd corfforol a maeth

Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio i wahanol leoliadau Gwasanaeth ledled Gogledd Cymru, a ymgymerir yn hyblyg yn ystod oriau swyddfa a gyda'r nos (bydd lwfans o 8.5% yn cael ei dalu am ymgymryd â dyletswyddau y tu allan i oriau). Ar gyfer elfennau swyddfa'r rôl, mae'r tîm fel arfer wedi'u lleoli yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl ond mae'r gallu i ymgymryd â gweithio ystwyth naill ai gartref neu leoliad Gwasanaeth arall ar gael.

I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich pecyn cais drwy e-bost i: recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw hanner dydd ar 26/06/2026**
**gyda chyfweliadau'n cael eu cynnal ar 15 neu 16/06/2026**

*Bydd y dyddiad cau yn cael ei gadw'n llym ac ni fydd unrhyw eithriadau yn berthnasol.*


disability confident EMPLOYER

Cyflogwr Cyflog Byw ydym ni

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau
PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT
CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG
EMPLOYER RECOGNITION SCHEME
CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR
GOLD AWARD 2022
GWOBR AUR 2022

Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800
call • text • live chat • email
Home shouldn't be a place of fear
Help is available 24/7

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies


Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal i'r holl staff ac anogir ceisiadau gan unigolion waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddau a byddwn yn ymateb yn eich iaith o'ch dewis yn ddi-oed. Bydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.